**Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth yr 11eg 2016**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:**<br><br>Arwel Wyn Owen (AO), CS Gwynedd (Cadeirydd)<br>Lynne Evans (LE), Tai GC (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Cyng Aled Jones, CS Ynys Môn<br>Arwel Jones, CS Ynys Môn<br>Cyng Ioan Thomas, CS Gwynedd<br>Sheila Phillips, CS Gwynedd<br>Debbie Lambe, CBS Conwy<br>Cyng Bobby Feeley, CS Ddinbych<br>Cyng Helen Brown, CS y Fflint | Katie Clubb, Sir y Fflint<br>Helen Williams, Sir y Fflint<br>Cyng Joan Lowe (JL), CBS Wrecsam<br>Shirley Jones, CBS Wrecsam<br>Phil Forbes, Iechyd (MH)<br>Elwen Roberts, Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd<br>Gwynne Jones, Cartrefi Conwy<br>Robert Loudon, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn<br>Enid Roberts (ER), CCG<br>Rhian Allen, Tackling Poverty Link<br>Rachel Pierce-Jones, Cydlynydd Datblygu Gwledig |

| | | **I'w weithredu gan** |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad a Chroeso** | |
| | Estynnwyd croeso i Jo Charles. Roedd Jo yn bresennol yn y cyfarfod i roi cyflwyniad i'r PCRh ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Estynnwyd croeso i Rhian Allen, ein haelod cyfetholedig newydd fel cyswllt y PCRh i raglenni Trechu Tlodi eraill.<br><br>Diolchwyd i Wyn Thomas, am ei gyfraniad i'r PCRh, mae Wyn wedi newid ei rôl ac ni fydd bellach yn Gynrychiolydd Iechyd ar y PCRh.<br><br>Gwrthdaro Buddiannau – Ni chodwyd unrhyw rai. | |
| | **Ymddiheuriadau** | |
| | Shan Lloyd Williams, CS Ynys Môn<br>Cyng Sue Lloyd Williams, CBS Conwy<br>Sam Parry, CBS Conwy<br>Gwynfor Griffiths, CS Ddinbych<br>Katie Newe, CS Ddinbych<br>Andy Lewis, CBS Wrecsam<br>Judith Magaw, Prawf<br>Jono Clarke, Prawf<br>Wyn Thomas, BIPBC<br>Steve Lynch, Llywodraeth Cymru<br>Gwenan Ellis, Cymdeithas Tai Eryri | |
| **2.** | **Cofnodion Blaenorol a Chamau Gweithredu ers cyfarfod mis Ionawr y PCRh** | |
| | Diweddariad ar y Camau Gweithredu:<br><br>• Bydd Mark Greenhaf (Carchar Gogledd Cymru) yn ceisio mynychu cyfarfod y PCRh ym mis Gorffennaf a mis Ionawr<br>• Diweddariad ar y cynnig – yn mynd i gyfarfod llawn cyfarfod Ynys Môn ym | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mis Mai a dim diweddariad pellach gan Wrecsam<br>• Fersiwn Gogledd Cymru o ddogfen Gwent – bydd Rachel yn dechrau ar y darn o waith hwn, a bydd yn cyflwyno drafft ar gyfer y cyfarfod nesaf<br>• Mae'r Cynllun Comisiynu a'r Cynllun Gwariant Rhanbarthol wedi'u hanfon at Lywodraeth Cymru - diolch i bawb am eu cymorth gyda'r cynllun hwn. | |
| **3.** | **Cyflwyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | |
| | Diolch i Jo Charles am fynychu'r cyfarfod i roi'r cyflwyniad hwn.<br><br>Mae Rachel wedi gofyn am y canlynol gan Jo Charles, i'w hanfon at y PCRh:<br>• Cyflwyniad<br>• Taflen Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru<br>• Canllaw Craidd SPF1<br>• Stori Megan<br><br>Ymhlith y sylwadau a godwyd yn dilyn y cyflwyniad roedd:<br>• Cymdeithasau Tai – maent yn cael eu cwmpasu fel un o'r cyrff statudol yn y Ddeddf hon, mae Cefnogi Pobl yn edrych ar unigolion tra bod landlordiaid yn edrych ar gymunedau, mae angen ceisio dod â hyn ynghyd.<br>• Diwygiadau Lles, Cap Tai Awdurdodau Lleol – mae'r rhain yn faterion i'r Ddeddf hon.<br>• Efallai y bydd Fideo Megan yn cael ei hyrwyddo ymhellach gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfleu'r neges i'r preswylwyr, pa ymdrechion a wnaed i hyrwyddo hyn ymhellach i breswylwyr yng Nghymru?<br>• Materion tebygol – faint o ddyblygu sydd gan y pedwar yng Ngogledd Cymru, Iechyd i gyfrannu at 4.<br>• Faint o ffocws allwn ni ei roi ar y nodau cyffredin hyn, allai hyn ychwanegu lefel arall o ddemocratiaeth?<br><br>Cyflwyniad defnyddiol gyda chysylltiadau clir i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | **RPJ** |
| **4** | **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) parthed y Cap Tai Awdurdodau Lleol a'r Credyd Cynhwysol** | |
| | Ni allai DWP fynychu cyfarfod y PCRh heddiw, ond fe anfonwyd gwybodaeth at y PCRh drwy e-bost a oedd wedi'i rhannu gan Rachel. Cafwyd trafodaeth ar y wybodaeth hon, codwyd materion pan oedd y wybodaeth ond yn cyfeirio at renti meincnod ac nid rhenti gwasanaeth. Nid yw'r wybodaeth hon yn ystyried gweddill y taliadau. Nid yw'n adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa e.e. rhenti hosteli, a rhenti cynlluniau gwarchodol. Nid yw'r Bil yn glir, mae datblygiad wedi'i ohirio.<br><br>Cytunwyd bod angen i ni, fel PCRh, bwysleisio'r taliadau hynny nad ydynt wedi'u nodi a meintioli beth fyddai hyn yn erbyn pob gwasanaeth, ac amlygu beth fyddai hyn yn ei olygu.<br><br>Dywedodd Rob Loudon ei fod wedi cwblhau holiadur yn ddiweddar i weld y manylion lle mae'r cyllid cyfan yn cael ei wario. Cyflwynwyd yr holiadur hwn ddydd Gwener diwethaf felly efallai y bydd rhai canfyddiadau yn deillio o hyn. Mae'n bosibl bod y rhan fwyaf o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) wedi cwblhau'r un ymarfer modelu.<br><br>Rachel i ofyn am y wybodaeth hon gan aelodau'r PCRh, a'i lleoli ar gyfer Gogledd Cymru, cadarnhau data sy'n sensitif yn fasnachol, ac ar ôl gwneud hynny ei gyflwyno i'n haelodau cabinet 'os ydych yn cefnogi hyn - dyma beth allai ddigwydd'.<br><br>Cyflwynir hyn i Is-grŵp y PCRh i ddechrau (cysylltiadau yma gyda'r gwaith y bydd | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**RPJ a'r PCRh CYFAN** |

| | | |
|---|---|---|
| | Rachel yn ei wneud ar fersiwn Gogledd Cymru o ddogfen Gwent). | |
| 5 | **Effaith derbyn ffoaduriaid o Syria** | |
| | Mae'r Arweinwyr o bob Awdurdod Lleol, Iechyd a'r Heddlu yn cwrdd eto ar Fawrth y 24ain er mwyn cytuno ar amserlen.<br><br>Mae Sir Ddinbych yn comisiynu prosiect Cyfeiriadedd, ar hyn o bryd mae yna un awdurdod lleol i gydweithio â Sir Ddinbych ar hyn. Os bydd gan unrhyw awdurdod lleol arall ddiddordeb yn hyn, cysylltwch â Katie Newe yn Cefnogi Pobl Sir Ddinbych. | |
| 6. | **Cyhoeddiad Ymchwil Pobl Hŷn Cefnogi Pobl** | |
| | Cafodd y papur hwn ei drafod yng nghyfarfod y PCRh, anfonwyd crynodeb at holl aelodau'r PCRh gyda dolen i'r adroddiad llawn, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd bod y cyhoeddiadau hyn yn cael eu hystyried yn unigol, bydd gan awdurdodau lleol flaenoriaethau gwahanol oherwydd y strategaethau sydd mewn grym gan awdurdodau lleol ac felly roedd y PCRh yn cytuno na all edrych ar yr ymchwil hwn ar ei ben ei hun, a bydd angen edrych ar y darlun mwy.<br><br>Hefyd, mae atebion yn brin yn y cyhoeddiad. | |
| 7. | **Dynion sy'n dianc rhag trais domestig – darpariaeth frys** | |
| | Esboniodd Katie Clubb i'r PCRh nad oes unrhyw loches ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dynion yn unig ar draws Gogledd Cymru, ac mae Sir y Fflint wedi dynodi hyn fel bwlch yn y ddarpariaeth. Mae Sir y Fflint yn cyflwyno prosiect peilot i Ogledd Cymru, ar gost o £35,000 i 2 le lloches i ddynion, yng Nghyngor Sir y Fflint. Mae hyn yn fater ar gyfer Gogledd Cymru gyfan, ac nid Sir y Fflint yn unig.<br><br>Mae gan Sir Ddinbych 5 uned hunangynhaliol wedi'u dosbarthu o lety â chymorth i ddynion neu ferched ag anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â Thrais Domestig.<br><br>Bydd Sir y Fflint yn cyflwyno hyn ar sail beilot am 12 mis, ac os bydd tystiolaeth o angen, cytunodd y PCRh i edrych ar hyn fel blaenoriaeth strategol ar gyfer y Cynllun Strategol Rhanbarthol, er mwyn i bob awdurdod lleol gydweithio arno. Mae mesur y galw am hyn yn anodd ar hyn o bryd am nad oes gennych ddarpariaeth ar waith.<br><br>Esboniodd Elwen o Trais yn y Cartref De Gwynedd bod y nifer o ddynion sy'n dianc rhag trais domestig wedi cynyddu, ac mae dynion yng Ngogledd Cymru yn gorfod teithio cyn belled â Threfaldwyn a'r Drenewydd i'r lloches agosaf. Mae gennym gymorth fel bo'r angen i ddynion yng Ngogledd Cymru – ond nid lloches. Fodd bynnag, esboniodd Ynys Môn eu bod wedi cael trafodaethau yn ddiweddar gydag un o'u darparwyr Cefnogi Pobl a'u bod wedi cytuno y gall un lloches maent yn ei defnyddio gael ei defnyddio ar gyfer dynion sy'n dianc rhag trais domestig, mae hyn yn wasanaeth mynediad 24 awr hefyd. Gallai hyn gael ei gynnig ar draws Gogledd Cymru, ond byddai angen trafod hyn gyda CP Ynys Môn yn gyntaf. | |
| 8. | **Llety dros dro i droseddwyr** | |
| | Esboniodd Katie Clubb bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd wedi'i ryddhau ar gyfer achosion MAPPA. Ar hyn o bryd rydym yn lleoli troseddwyr y tu allan i'r sir. Credwyd ein bod yn colli cyfle yma ac y gallem wneud arbediad effeithlonrwydd yma. Er enghraifft, Sir y Fflint yn lleoli achos yn Ynys Môn a staff Sir y Fflint yn teithio i Ynys Môn i ddarparu cymorth, ac ar yr un pryd mae Ynys Môn yn lleoli achos yn Sir y Fflint ac mae staff Ynys Môn yn gorfod teithio i Sir y Fflint i ddarparu cymorth. Allwn ni rannu adnoddau / staff er mwyn arbed amser teithio? | |

| | | |
|---|---|---|
| | Byddai'n rhaid trafod protocol rhannu. Dylid codi'r mater hwn hefyd gyda charchar Gogledd Cymru.<br><br>Bydd hyn yn cael ei drafod yn NWSPIN, a bydd yn cael ei nodi fel blaenoriaeth strategol bosibl ar gyfer y Cynllun Strategol Rhanbarthol. | |
| **9.1** | **Diweddariad gan Lywodraeth Cymru** | |
| | Cafodd hwn ei ddosbarthu gyda'r Agenda ar Fawrth y 4ydd | |
| **9.2** | **Gwneud cysylltiadau gyda Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Tîm o Amgylch y Teulu** | |
| | Croesawodd y PCRh Rhian Allen i'r cyfarfod. Rhian Allen yw ein haelod cyfetholedig newydd ar y PCRh. Mae swydd Rhian yn cael ei hariannu drwy Teuluoedd yn Gyntaf, ac maent wedi bod yn gweithio ar yr elfen o gefnogi teuluoedd ac yna cysylltu hyn gyda gwaith Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf. Dros y deuddeg mis nesaf, bydd gwaith Rhian yn canolbwyntio yn bennaf ar gynllunio ar gyfer yr amser y bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn dod i ben. Mae dyfodol Teuluoedd yn Gyntaf yn ansicr - bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniadau'r etholiadau ym mis Mai (Mae hyn hefyd yn wir am Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf).<br><br>Mae Rhian wedi bod yn edrych ar y data o'r rhaglenni hyn i weld beth yw'r meysydd cyffredin, ac mae'r data yn nodi mai'r rhain yw:<br>1. Magu Plant<br>2. Ymddygiad gyda Phlant<br>3. Cyrhaeddiad a Chyflawniad<br>4. Iechyd Meddwl<br><br>Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu'n ddiweddar gyda Dechrau'n Deg. Mae ffocws hefyd ar y cyfeiriad strategol ar gyfer y rhaglenni hyn, yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<br><br>Dywedodd Rhian y bydd gweithdy yn cael ei gynnal ym mis Mehefin (nid yw'r dyddiad wedi'i gadarnhau eto). Bydd y gweithdy hwn yn canolbwyntio ar sut y gallwn gydweithio, a bydd CP yn cael gwahoddiad i'w fynychu. Bydd hyn yn cynnwys y rhaglenni Trechu Tlodi, iechyd a'r heddlu.<br><br>Esboniodd Rhian hefyd, yn debyg i'r PCRh gyda'n his-grwpiau a phecynnau gwaith, mae gan Teuluoedd yn Gyntaf setiau dysgu, roedd Rhian o'r farn mai'r setiau dysgu mwyaf addas ar gyfer CP fyddai'r Set Dysgu Magu Plant a'r Set Dysgu Comisiynu a Pherfformiad. Bydd Rachel yn darparu dyddiadau'r rhain.<br><br>Gwaith wedi'i gwblhau:<br>• Asesiad Anghenion Pobl Agored i Niwed Gogledd Cymru – Rachel i gael copi o hwn.<br>• Dadansoddiad Budd Costau'r Tîm o Amgylch y Teulu – astudiaeth fanwl ar draws Gogledd Cymru – dywedodd Rhian y gallai rannu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd<br>• Offer Ymyrraeth Gynnar (Fersiwn drafft, ni ellir ei rannu eto)<br><br>Pwyntiau trafod eraill a godwyd<br>• Y rhwystr mwyaf yw'r loteri cod post gyda Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg<br>• Gwnaed pwynt ynglŷn â'r pecyn PCRh sydd wedi cau – Pobl Ifanc. Roedd pecyn gwaith hwn y PCRh yn nodi perthnasau yn chwalu – a yw'n bosibl | **RPJ**<br><br>**RPJ** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cysylltu hyn gyda'r gwaith mae Rhian wedi'i wneud? Bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Is-grŵp y PCRh.<br><br>Diolchwyd i Rhian am fynychu a chytuno i fod yn aelod cyfetholedig o'n PCRh i gynrychioli'r rhaglenni Trethu Tlodi hyn. | |
| **9.4** | **Arbedion Effeithlonrwydd** | |
| | Dywedodd Arwel Jones, CP Ynys Môn, eu bod wedi cyfuno gwasanaethau yn ddiweddar ar gyfer troseddwyr, camddefnyddwyr sylweddau a phobl ddigartref. Mae hyn wedi creu budd ffafriol iawn.<br><br>Dywedodd Katie Clubb, CP Sir y Fflint, eu bod wedi lleihau'r nifer o weithwyr proffesiynol y trydydd sector, mae rhai o'r lefelau is hyn yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn cael ei golli, ond bod y cymorth yn parhau i gael ei ddarparu. Mae arian wedi'i arbed yn y maes hwn. | |
| **9.5** | **Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth** | |
| | Dyma bedwerydd diweddariad Sir y Fflint. Roedd papurau wedi'u rhannu gydag agenda'r PCRh ar Fawrth y 4$^{ydd}$.<br><br>Tŷ Glas – ODEL Involve<br>Prosiect Cyfranogi Defnyddwyr Gwasanaeth Tîm Cefnogi Pobl Sir y Fflint.<br><br>Nodau:<br>Cynyddu a gwella ymgysylltiad a chyfranogiad pobl sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd, sydd wedi bod yn ddigartref, a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau Cefnogi Pobl yn awr? I gynnwys defnyddwyr gwasanaeth ym mhob cam o'r gwaith o ddatblygu, comisiynu ac adolygu gwasanaethau Cefnogi Pobl yn Sir y Fflint.<br><br>Esboniodd Helen Williams, CP Sir y Fflint, bod ganddynt 11 o wirfoddolwyr, yr oedd 6 ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant achrededig. Mae 1 yn mynychu'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl. Mae gwirfoddolwyr wedi cwblhau'r ymgynghoriad gyda Phobl Ifanc, Helen i rannu hyn gyda Rachel.<br><br>Mae gwirfoddolwyr yn mynychu Fforwm Darparwyr Sir y Fflint ac maent yn ystyried fforwm cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Diolch i Sir y Fflint am y diweddariad hwn. | |
| **10.1** | **Ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd** | |
| | Mae Sir y Fflint wedi cytuno i Gadeirio'r PCRh, a bydd naill ai'n Katie Clubb neu Clare Budden. Mae Lynne Evans wedi cytuno i aros fel Dirprwy Gadeirydd hyd at fis Medi, pan fydd tymor y Cynrychiolwyr Darparwyr a Landlordiaid yn dod i ben. Rachel i ychwanegu at y cynllun gwaith bod angen adolygu swydd y Dirprwy Gadeirydd ym mis Medi.<br><br>Diolchwyd i Arwel Wyn Owen am fod yn Gadeirydd am y 12 mis diwethaf. | |
| | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | • Mae angen cynrychiolydd Iechyd y Cyhoedd ar y PCRh<br>• Ni fydd Wyn yn mynychu'r PCRh mwyach, mae angen cadarnhau'r Cynrychiolydd Iechyd newydd<br>• Bydd Rachel yn cysylltu â holl aelodau'r PCRh i lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** | |
| | Mai 13eg am 10:00am yn yr Optic Centre, Parc Busnes Llanelwy. Bydd hyn yn weithdy i ganolbwyntio ar Anableddau Dysgu a gwella'r dulliau casglu data. | |

**Tabl o Gamau Gweithredu**

| Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|
| Rachel i gysylltu â Jo Charles i gael y cyflwyniad a'r papurau ategol diweddaraf i'w rhannu gyda'r PCRh | RPJ | Cwblhawyd |
| Rachel i anfon e-bost at Aelodau perthnasol y PCRh i amlygu'r taliadau nad ydynt wedi'u nodi yng Ngwybodaeth DWP ac esbonio effaith hyn. Yna bydd Rachel yn lleoli hyn i Ogledd Cymru ac yn ei gyflwyno i Is-grŵp y PCRh ei drafod. | RPJ | Cwblhawyd – cyflwynwyd i Is-grŵp y PCRh ei drafod |
| Rachel i ychwanegu'r Cynllun Strategol Rhanbarthol drafft:<br>• Prosiect peilot 12 mis Trais Domestig Dynion Sir y Fflint<br>• Arbedion effeithlonrwydd 0 rhannu staff / amser teithio staff | RPJ | Cwblhawyd |
| Rachel i gael dyddiadau'r Setiau Dysgu Magu Plant a Chomisiynu a Chaffael gan Rhian Allen | RPJ | Aros am ymateb |
| Rachel i gael copi o'r Asesiad a'r Fethodoleg o ran Anghenion Pobl Agored i Niwed Gogledd Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Dadansoddiad o Fudd Costau y mae Rhian Allen wedi'i greu | RPJ | Cwblhawyd |
| Rachel i gysylltu â Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus | RPJ | Cwblhawyd – Jo Charles |
| Rachel i gysylltu ag Wyn Thomas / Phil Forbes ar gyfer Cynrychiolydd Iechyd | RPJ | Cwblhawyd – byddwn yn gwybod ddiwedd mis Mai |
| Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – pawb i'w lofnodi, bydd Rachel yn anfon e-bost yn fuan | RPJ | Yn aros am lofnodion yr aelodau |